| • prif ddigwyddiadau'r Bedwaredd Groesgad, gan gynnwys:<br>• gweithredoedd Gweriniaeth Fenis<br>• yr ymosodiad ar Constantinople. | Cynllun i ail-gipio Jerusalem drwy ymosod ar yr Aifft yn gyntaf.<br><br>Ymosodiadau'r croesgadwyr ar y gwrthryfelwyr a oedd yn gwrthwynebu rheolaeth Fenis yng Ngwarchae Zara yn 1202.<br><br>Y croesgadwyr yn ysbeilio Constantinople yn 1204.<br><br>Yr effaith a gafodd y groesgad hon ar yr Ymerodraeth Fysantaidd, gan arwain at ei rhannu'n dair teyrnas. | **Gweithgareddau:**<br>• Plotiwch y llwybr a fwriadwyd a llwybr gwirionedd y croesgadwyr yn y Bedwaredd Groesgad ar fap o Fôr y Canoldir.<br>• Esboniwch ran Gweriniaeth Fenis a sut y dylanwadodd hyn ar ddigwyddiadau yn y Bedwaredd Groesgad.<br>• Esboniwch pam yr ymosododd y croesgadwyr ar Constantinople, a oedd wedi ffurfio cynghrair â'r croesgadwyr.<br>• Amlinellwch effaith ysbeilio Constantinople ar hanes dilynol yr Ymerodraeth Fysantaidd.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall beth ddigwyddodd ar y Bedwaredd Groesgad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>The Rebuilding of the Kingdom of Jerusalem (1192-1244)<br><br>Y Bedwaredd Groesgad - Wicipedia<br><br>Fourth Crusade - Wikipedia<br>Fourth Crusade - World History Encyclopedia<br><br>Sack of Constantinople - Wikipedia<br><br>The Fourth Crusade and the Sack of Constantinople<br><br>Siege of Zara - Wikipedia<br><br>Why Did the Fourth Crusade Sack a Christian City?<br><br>**Fideo(s):**<br>Fourth Crusade - 3 Minute History<br><br>Why did the Crusaders sack Constantinople in 1204? | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Trafodwch y rhesymau dros fethiant y Bedwaredd Groesgad a phenderfynwch pa un o'r rhesymau dros y methiant hwn oedd bwysicaf.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am y rhesymau dros fethiant y Bedwaredd Groesgad. | Did the Fourth Crusade Destroy the Byzantine Empire?<br><br>**Map(iau):**<br>Y Pedwerydd Croesgad, 1202-04<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Crusades* gan Jamie Byrom a Michael Riley pennod 8<br><br>*A Short History of Byzantium* gan John Julius Norwich, pennod 22<br><br>*The Crusades 1071-1204* gan Mary Dicken a Nicholas Fellows, pennod 8<br><br>*The Crusades Through Arab Eyes* gan Amin Maalouf, rhan 5<br><br>*God's War - a new history of the Crusades* gan Christopher Tyerman, penodau 15,16 a 17<br><br>*The World of the Crusades - an illustrated history* gan Christopher Tyerman, pennod 6 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Holy* Wars - a modern history of the Crusades gan Jonathan Philips, pennod 7 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • yr ymdrechion i adfer Jerwsalem, gan gynnwys:<br>• y Pumed Groesgad a gwarchae Damietta<br>• y Chweched Groesgad a rheolaeth dros Jerwsalem. | Y rhesymau dros yr ymdrechion parhaus i adfer Jerusalem<br><br>Digwyddiadau'r Bumed Groesgad gan gynnwys Gwarchae Damietta (1218-9).<br><br>Canlyniadau'r Bumed Groesgad, gan gynnwys methiant i drechu'r Aifft a thynnu'n ôl o'r tiriogaethau a gipiwyd.<br><br>Cefndir y Chwethed Groesgad - problemau'r Ymerawdwr Frederick II â'r Pab Honorius a'r rhaniadau rhwng yr Ayyubidiaid yn yr Aifft.<br><br>Cytundeb Jaffa yn 1229 ac adfer rheolaeth Gristnogol yn Jerusalem. | **Gweithgareddau:**<br>• Esboniwch pam yr oedd Pumed Croesgad.<br>• Amlinellwch ganlyniadau'r Bumed Groesgad, yn enwedig i'r croesgadwyr.<br>• Esboniwch pam yr oedd Chweched Croesgad.<br>• Cymharwch ganlyniadau'r Chweched Groesgad â'r Bumed a defnyddiwch y gymhariaeth hon i esbonio pam yr oedd un groesgad yn fwy llwyddiannus na'r llall.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall y Bumed a'r Chweched Groesgad.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch pa mor bwysig oedd rhaniad gwleidyddol yn yr anghydfod dros reolaeth o Jerusalem.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am rôl rhaniad gwleidyddol yng nghanlyniad y Chweched Groesgad. | **Gwefan(nau):**<br>Fifth Crusade -- Wikipedia<br><br>The Fifth Crusade - History Learning<br><br>Siege of Damietta (1218–1219) - Wikipedia<br><br>The Siege of Damietta, 1218-19 CE - World History Encyclopedia<br><br>The Sixth Crusade - Wikipedia<br><br>The Sixth Crusade - History Learning<br><br>Treaty of Jaffa (1229) - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>Fifth Crusade<br>The Fifth Crusade: Egypt Instead of the Holy Land<br><br>The Sixth Crusade: diplomacy or fighting?<br>The Sixth Crusade: The Crusade for Peace<br><br>**Map(iau):**<br>Y Pumed Croesgad, 1215 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Llyfr(au):**<br>*The Crusades Through Arab Eyes* gan Amin Maalouf, rhan 5<br><br>*God's War - a new history of the Crusades* gan Christopher Tyerman, pennod 19<br><br>*The World of the Crusades - an illustrated history* gan Christopher Tyerman, pennod 6<br><br>*Holy Wars - a modern history of the Crusades* gan Jonathan Philips, pennod 9 | |
| • digwyddiadau Croesgad y Barwniaid, gan gynnwys:<br>  • buddugoliaeth y Mwslimiaid yn Gaza<br>  • adfer Teyrnas Jerwsalem. | Rhaniadau rhwng rheolwyr Mwslimaidd Syria a'r Aifft.<br><br>Yr angen i barhau i reoli Jerusalem ar ddiwedd deg mlynedd Cytundeb Jaffa.<br><br>Trechu'r croesgadwyr yn Gaza yn 1239.<br><br>Negodiadau llwyddiannus Theobald I o Navarre â'r Ayyubidiaid rhanedig ynghylch y rheolaeth o Jerusalem. | **Gweithgaredd:**<br>• Ymchwiliwch i'r amgylchiadau a ffafriodd y croesgadwyr yng Nghroesgad y Barwniaid.<br>• Esboniwch pam y cafodd y croesgadwyr eu trechu yn Gaza yn 1239.<br>• Amlinellwch sut y llwyddodd Theobold o Navarre i sicrhau Jerwsalem i'r croesgadwyr.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall arwyddocâd | **Gwefan(nau):**<br>Barons' Crusade - Wikipedia<br><br>The Barons' Crusade, 1239-41<br><br>Battle at Gaza (1239) - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>The Barons' Crusade: Every week<br><br>**Map(iau):**<br>Y Dwyrain Agos o 1229 tan 1241 CC | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Croesgad y Barwniaid.<br>**Gweithgaredd uwch:** Trafodwch ai diplomyddiaeth neu ryfela oedd bwysicaf yng nghanlyniad y Bumed a'r Chweched Groesgad, ynghyd â Chroesgad y Barwniaid.<br><br>**Canlyniad uwch:** Gall dysgwyr lunio casgliadau ynghylch y rhesymau dros ganlyniadau'r Bumed a'r Chweched Groesgad, ynghyd â Chroesgad y Barwniaid. | **Llyfr(au):**<br>*The Crusades Through Arab Eyes* gan Amin Maalouf, rhan 5<br><br>*The World of the Crusades - an illustrated history* gan Christopher Tyerman, pennod 6<br><br>*God's War - a new history of the Crusades* gan Christopher Tyerman, pennod 23 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| 3.2.5 Canlyniadau'r Croesgadau | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dylai dysgwyr ddeall: | Gwybodaeth | Gweithgareddau a Chanlyniadau | Adnoddau | Amser a awgrymir (oriau) |
| • tynged teyrnasoedd y Croesgadwyr, gan gynnwys:<br>  • rhyfel cartref yn Outremer<br>  • Gwarchau Acre, 1291. | Methiannau croesgadau eraill rhwng 1248 a 1272.<br><br>Pŵer cynyddol Swltaniaeth Mamluk.<br><br>Rhyfel cartref rhwng y croesgadwyr yn arwain at gwymp Teyrnas Outremer y Croesgadwyr.<br><br>Gwarchae Acre a diwedd rheolaeth y croesgadwyr o'r Tir Sanctaidd.<br><br>Brenhinoedd Ewrop yn rhoi'r gorau i gefnogi croesgadau. | **Gweithgareddau:**<br>• Amlinellwch y problemau yn nheyrnas Outremer. Ystyriwch oblygiadau hyn i groesgadau yn y dyfodol.<br>• Esboniwch pam y cynyddodd grym Swltaniaeth Mamluk drwy ail hanner y 13eg ganrif.<br>• Esboniwch beth ddigwyddodd yng Ngwarchae Acre - gellid gwneud hyn drwy ddod o hyd iddo ar fap o'r Tir Sanctaidd ac ychwanegu manylion am yr hyn a ddigwyddodd ar y map.<br>• Ystyriwch effaith cwymp Acre ar agweddau tuag at y croesgadau yn Ewrop.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall y rhesymau dros ddiwedd y croesgadau yn y Dwyrain Agos.<br><br>**Canlyniad uwch:** | **Gwefan(nau):**<br>The Crusader Kingdoms<br><br>The War of the Lombards: Civil War in Outremer 1229-1233<br><br>Seventh Crusade - Wikipedia<br><br>Eighth Crusade - Wikipedia<br><br>Lord Edward's crusade - Wikipedia<br><br>Mamluk Sultanate - Wikipedia<br><br>The Mamluk Sultanate: How Slaves Came to Rule an Empire<br><br>Baybars - Wikipedia<br><br>Fall of Outremer - Wikipedia<br><br>Siege of Acre (1291) - Wikipedia<br><br>Ten True Tales of the Knights Templar: The Fall of Acre 1291 | 2 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Gall dysgwyr lunio casgliadau am y rheswm pwysicaf pam y methodd y croesgadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:** Trafodwch beth oedd y rheswm pwysicaf, byrdymor neu hirdymor, dros fethiant y croesgadau. | The Siege of Acre, 1291 CE - World History Encyclopedia<br><br>The Fall of the Knights Templar: The Siege of Acre, 1291<br><br>Crusades after the fall of Acre, 1291-1399 - Wikipedia<br><br>**Fideo(s):**<br>Why did the Ayyubid Empire Collapse?<br><br>The 7th Crusade Was A Complete Disaster For The Christians<br><br>Baibars: The Crusaders' Nemesis<br><br>1291: Siege of Acre<br><br>The Knights Templar's Last Stand<br><br>The Last Crusade<br><br>**Podlediad(au):**<br>The Mamluks - In Our Time<br><br>**Map(iau):**<br>Y Croesgadau, 1096-1204<br><br>**Llyfr(au):**<br>*The Crusades Through Arab* | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *Eyes* gan Amin Maalouf, rhan 6 | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | *God's War - a new history of the Crusades* gan Christopher Tyerman, penodau 22 and 24<br><br>*The World of the Crusades - an illustrated history* gan Christopher Tyerman, pennod 10<br><br>*Holy Wars - a modern history of the Crusades* gan Jonathan Philips, pennod 10 | |
| • y rhesymau dros ganlyniadau'r Croesgadau, gan gynnwys:<br>  • rhaniadau ymhlith rheolwyr Cristnogol<br>  • ymgyrchoedd milwrol effeithiol gan arweinwyr Mwslimaidd. | Methiant croesgadwyr Ffrainc a'r Almaen i gydweithio yn yr Ail Groesgad.<br><br>Ymosodiad y croesgadwyr ar eu cynghreiriaid Bysantaidd yn y Bedwaredd Groesgad<br><br>Diffyg cefnogaeth i Louis IX yn y croesgadau diweddarach.<br><br>Uno Tyrciaid Seljwc mewn grym ymladd effeithiol gan Salah ad-Din yn ystod y Drydedd Groesgad.<br><br>Llwyddiannau Baybars, Swltan Mamluk yn y croesgadau diweddarach. | **Gweithgareddau:**<br>• Casglwch enghreifftiau o wrthdaro rhwng croesgadwyr o Ewrop o waith cynharach ar hyn a thrafodwch beth oedd y gwrthdaro mwyaf arwyddocaol<br>• Amlinellwch sut y newidiodd cydberthnasau rhwng Cristnogaeth Ladinaidd a Groegaidd yn ystod y croesgadau.<br>• Esboniwch pam yr oedd rheolwyr Mwslimaidd yn fwy llwyddiannus o lawer na'r Cristnogion yn y croesgadau ar y cyfan. | **Gwefan(nau):**<br>Why did the Second Crusade end in failure?<br><br>Fiasco: The Mad Tale of the Fourth Crusade<br><br>What Caused the Growth of Papal Power in the Medieval Period<br><br>Saladin & the Unification of the Muslim Front: 1169-1187 CE - World History Encyclopedia<br><br>Mamluks vs Crusades<br><br>Baybars and the Mamluk Sultanate | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canlyniad:**<br>Gallai dysgwyr ddangos eu bod yn deall canlyniadau gwahanol y croesgadau i Gristnogion a Mwslimiaid.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Cyflwynwch ddadl - a wnaeth y Cristnogion golli'r croesgadau neu a wnaeth y Mwslimiaid ennill?<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am arwyddocâd canlyniad y croesgadau. | | |
| • effaith y Croesgadau yn y Dwyrain a'r Gorllewin, gan gynnwys:<br>  • polareiddio crefyddol<br>  • defnyddio crefydd i gyfiawnhau amcanion gwleidyddol. | Rhaniadau parhaus rhwng Cristnogaeth Ladinaidd yn y gorllewin a Christnogaeth Roegaidd yn y dwyrain.<br><br>Parhaodd rheolaeth y Mwslimiaid dros y Tir Sanctaidd am ganrifoedd ac mae'r rhaniadau rhwng Cristnogion a Mwslimiaid yn fwy sefydledig.<br><br>Defnydd y Pab Urban II o'r groesgad i roi hwb i rym yr Eglwys a'r brenhinoedd Ewropeaidd a geisiodd gynyddu eu dylanwad drwy ymuno â'r croesgadau. | **Gweithgareddau:**<br>• Ymchwiliwch i'r rhaniad hirdymor rhwng Cristnogaeth Ladinaidd a Groegaidd.<br>• Esboniwch effaith hirdymor rheolaeth Fwslimaidd barhaus o'r Tir Sanctaidd, yn enwedig ei goblygiadau i Gristnogion ac Iddewon.<br>• Ystyriwch a gyflawnodd Urban II ei nod o uno'r Byd Cristnogol gyda'i alwad i ymuno â'r croesgadau. | **Website(s):**<br>How did the Crusades affect relations between the Latin and Eastern Orthodox churches?<br><br>How did the Crusades exacerbate Christian-Muslim tensions?<br><br>Pope Urban II orders first Crusade<br><br>How Saladin united the Muslim forces to defeat the Third Crusade | 1 awr |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Defnydd arweinydd yr Ayyubidiaid, Salah ad-Din o'r bygythiad Cristnogol i uno grymoedd Mwslimaidd a defnydd Baybars, Swltan Mamluk o'r croesgadau i gyfiawnhau ehangu ei diriogaethau. | • Esboniwch sut y defnyddiwyd y bygythiad gan Gristnogaeth i uno gwrthwynebiad Mwslimaidd yn y Dwyrain Agos.<br><br>**Canlyniad:**<br>Gall dysgwyr ddangos eu bod yn deall effaith wleidyddol a chrefyddol y croesgadau.<br><br>**Gweithgaredd uwch:**<br>Trafodwch beth oedd canlyniad pwysicaf y croesgadau.<br><br>**Canlyniad uwch:**<br>Gall dysgwyr lunio casgliadau am ganlyniadau pwysicaf y croesgadau. | How did the Mamluks contribute to the fall of the Crusader States?<br><br>Egypt After the Pharaohs<br><br>How Did the Crusades Affect Christianity?<br><br>How did the Crusades affect the papacy's power in Europe?<br><br>How did the Crusades affect the political landscape of Europe?<br><br>The Crusades: Consequences & Effects - World History Encyclopedia<br><br>Understanding the Crusades from an Islamic perspective<br><br>**Fideo(s):**<br>How Much Power Did the Catholic Church Have in the Middle Ages?<br><br>Crusades From the Muslim Perspective<br><br>**Podlediad(au):**<br>Early Medieval Papacy - Dead To Me | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | The Crusades with Dan Jones - Dan Snow's History Hit<br><br>The Crusades in an Islamic Context | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Profiadau Dysgu

Dylid annog dysgwyr i ystyried y profiadau a'r sgiliau dysgu canlynol i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'u hymwybyddiaeth o gynnwys y testun ymhellach. Mae'r wybodaeth yn y tabl isod yn darparu cyfleoedd i athrawon integreiddio'r profiadau dysgu yn rhan o'u proses o gyflwyno'r pwnc.

| Profiad Dysgu | Ymhelaethiad o'r Profiad Dysgu |
|---|---|
| Cymryd rhan mewn ymweliadau addysgol wyneb yn wyneb neu'n ddigidol | Teithiau rhithiol o leoliadau pwysig yn y croesgadau. Mae hyn yn cynnwys dinasoedd Rhufain, Constantinople, Jerusalem ac Acre (Akko fodern) |
| Meithrin empathi, goddefgarwch, cydymdeimlad a chwilfrydedd drwy astudio gwahanol gyd-destunau hanesyddol | Astudiaeth o'r rhaniadau mewn Cristnogaeth ac Islam yw ffynonellau gwrthdaro yn y croesgadau, ond ar adegau gwahanol yn y cyfnod, gwelwyd goddefgarwch rhwng y safbwyntiau crefyddol gwahanol hyn yn y Tir Sanctaidd. Cafodd y gymuned Iddewig ei hymlid yn y Tir Sanctaidd ac mewn cymunedau yn Ewrop, hyd yn oed pan lwyddodd Cristnogion Lladinaidd a Groegaidd i roi eu gwahaniaethau i'r naill ochr er mwyn cydweithio. |
| Cydweithio | Mae llawer o enghreifftiau o drafodaethau, fel: pa mor bwerus oedd yr Ymerodraeth Fysantaidd o gymharu â'i chymdogion Mwslimaidd; pa mor effeithiol oedd Richard I fel arweinydd milwrol - a yw hyn yn golygu ei fod yn groesgadwr effeithiol hefyd?; y rhesymau dros fethiant y Bedwaredd Groesgad - pa un o'r rhesymau dros y methiant oedd bwysicaf?; ai diplomyddiaeth neu ryfela oedd bwysicaf yng nghanlyniad y Bumed a'r Chweched Groesgad, ynghyd â Chroesgad y Barwniaid.<br><br>Mae cyfleoedd i ddadlau hefyd, fel: y rhesymau dros fethiant yr Ail Groesgad - gydag un ochr yn dadlau dros gryfder lluoedd y Mwslimiaid, a'r llall yn dadlau dros wendid y croesgadwyr; pwy sy'n haeddu cael ei gofio fel arwr y croesgadau - Salah ad-Din neu Richard I? |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cyfleoedd i ymgorffori elfennau o'r Cwricwlwm i Gymru

| Llinynnau Cwricwlwm i Gymru | |
|---|---|
| **Themâu sy'n trawstorri** | |
| Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol | Mae **Uned 3** yn rhoi chwe phwnc hanesyddol gwahanol sy'n ymwneud â hanes y byd i ganolfannau. Mae'r pynciau dewisol yn rhoi cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd a phrofiadau amrywiol y bobloedd. Mae'r opsiynau yn golygu y gellir astudio rhanbarthau a ymyleiddiwyd o'r byd, hanes pobloedd a ddisodlwyd a theyrnasoedd a anghofiwyd, yn enwedig gwledydd deheuol y byd.<br><br>Mae Opsiwn 3.2 Yr Oesoedd Canol: Y Croesgadau, tua 1095-tua 1291 yn galluogi canolfannau a dysgwyr i archwilio hanes yr Oesoedd Canol yn Ewrop a'r Dwyrain Agos. Mae'r ffocws yn amrywio o'r gwrthdaro dros diriogaeth a dinasoedd yn y Tir Sanctaidd fel Jerwsalem, canolfannau gwneud penderfyniadau mewn llefydd fel Rhufain a Constantinople, ond hefyd leoliadau yng Nghymru a ddarparodd bererinion a marchogion a gymerodd ran yn y croesgadau, ac a grybwyllir yng nghyfrif Gerallt Gymro o ymdrechion i ennyn cefnogaeth i'r Drydedd Groesgad yng Nghymru ei hun. |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | Bydd dysgwyr yn astudio'r cydberthnasau newidiol rhwng dilynwyr Cristnogaeth Ladinaidd a Groegaidd, ynghyd â'r gydberthynas rhwng Cristnogion, Iddewon a Mwslimiaid yn y Tir Sanctaidd. Weithiau, roedd cydberthnasau treisgar, weithiau roedd y lefelau goddefgarwch yn amrywio o ryfela i gydfodolaeth heddlychlon.<br><br>Er enghraifft, bydd dysgwyr yn dysgu sut y cafodd y Groesgad Gyntaf ei threfnu, gan gynnwys cais y Bysantiaid am gefnogaeth filwrol, digwyddiadau cynharaf y Groesgad Gyntaf, gan gynnwys Croesgad y Bobl a'r ymosodiadau ar Iddewon yn Ffrainc, a lladd Mwslimiaid ac Iddewon yn Jerwsalem pan gyrhaeddodd y croesgadau. |
| Addysg Hawliau Dynol ac Amrywiaeth | Bydd dysgwyr yn deall bod y cyfranogwyr yn y croesgadau yn cynrychioli amrywiaeth eang o grwpiau ethnig gan fod y Tir Sanctaidd yn agos at Asia, Affrica ac Ewrop. Roedd amrywiaeth o grefyddau hefyd yn rhan o'r croesgadau - Cristnogaeth, Islam ac Iddewiaeth. Roedd ymerodraethau hefyd yn rhan o'r croesgadau, boed yn ymerodraeth ysbrydol Cristnogaeth Ladinaidd neu ymerodraeth wleidyddol/grefyddol Cristnogaeth Roegaidd. Mae trefedigaethedd hefyd yn rhan o'r pwnc hwn, pan sefydlodd y croesgadwyr deyrnasoedd y croesgadwyr neu pan ehangwyd tiriogaethau grwpiau Islamaidd fel Tyrciaid Seljwc neu'r Mamlukiaid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith | Roedd llawer o gyfleoedd swyddi ar gael i bobl Cymru, Ewrop a'r Dwyrain Agos nad ydynt wir yn rhan o'r gwaith y mae pobl yn y lleoedd hyn yn ei wneud heddiw. Prin iawn fyddai'r bobl heddiw a fyddai'n dewis bod yn offeiriaid neu'n fynachod.<br><br>Mae rolau gorchmynion milwrol y croesgadwyr fel Marchogion y Deml, y Marchogion Ysbytaidd a her y Mwslimiaid i'r croesgadau, gan gynnwys lluoedd milwrol y Mwslimiaid yn dangos bod gyrfaoedd milwrol yn y gorffennol yn wahanol iawn i yrfaoedd heddiw. Mae gwasanaeth milwrol bellach yn arwain at lawer o hyfforddiant proffesiynol a disgwyliadau na fyddai marchogion a milwyr amatur y croesgadau yn gyfarwydd â nhw. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Llythrennedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys llythrennedd mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys dadansoddi deunydd ffynhonnell, cyfleoedd ysgrifennu estynedig, datblygu geirfa, dadlau a thrafod. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr oherwydd y byddant yn meithrin sgiliau trawsgwricwlaidd a fydd yn sail i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â sgiliau cyfathrebu y gellir eu defnyddio ar draws pynciau gan eu paratoi ar gyfer addysg neu gyflogaeth yn y dyfodol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o'r ffordd y gellid ymgorffori Llythrennedd yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Gwrando | Caiff dysgwyr y cyfle i asesu cywirdeb a dibynadwyedd deunydd ffynhonnell a rhannu safbwyntiau drwy drafodaeth a dulliau cwestiynu llafar wrth gael eu haddysgu am gynnwys y fanyleb. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Caiff dysgwyr eu hannog i ddadlau ac ymateb i safbwyntiau eraill.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i wrando ar bodlediadau a recordiadau i ddatblygu eu geirfa a meithrin eu sgiliau gwrando.<br>• Mae'r defnydd o hanes llafar a chyfweliadau yn meithrin sgiliau gwrando a'r gallu i ymateb i eraill yn briodol.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i rannu ac ymateb i gyflwyniadau gan eu cyfoedion. |
| | |
| Darllen | Caiff dysgwyr y cyfle i ddarllen deunydd ffynhonnell cyfoes ynghyd ag amrywiaeth o ddehongliadau hanesyddol, cyn gwerthuso'r ffynonellau yn feirniadol, dadansoddi eu cynnwys a chymharu a chyferbynnu ffynonellau sy'n canolbwyntio ar y dehongliad a roddir ganddynt o ddigwyddiadau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau darllen fel sgimio a sganio neu ddarllen ar gyfer diben.<br>• Darllen darnau o amrywiaeth eang o ffynonellau fel areithiau, erthyglau, darnau o ddyddiaduron, cofnodion hanesyddol a phapurau newydd.<br>• Cymharu a chyferbynnu cynnwys ffynonellau hanesyddol.<br>• Asesu dibynadwyedd a chywirdeb y testun i feithrin y sgìl o ddarllen yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Siarad | Caiff dysgwyr y cyfle i feithrin eu dealltwriaeth o safbwyntiau a chynnwys drwy ddadlau, trafod, cyflwyniadau a gwaith grŵp. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dadlau'r rheswm pwysicaf pam y digwyddodd digwyddiad<br>• Gofyn cwestiynau er mwyn egluro a meithrin dealltwriaeth.<br>• Gall dysgwyr feithrin sgiliau siarad drwy waith grŵp a gwaith mewn parau. |
| | |
| Ysgrifennu | Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth o eirfa pwnc benodol, iaith idiomatig a gallu cyflwyno eu gwaith yn ddigidol. Cânt gyfleoedd hefyd i fyfyrio ar strwythur a chynnwys eu gwaith hysgrifennu. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Dangos esiamplau o atebion drwy weithgareddau athro, cyfoedion a hunanasesu.<br>• Caiff dysgwyr y cyfle i ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau ysgrifennu fel ffurfiol, anffurfiol a pherson cyntaf. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| **Sgiliau trawsgwricwlaidd - Rhifedd** | |
|---|---|
| Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Rhifedd mewn TGAU Hanes, er enghraifft dadansoddi newid yn y boblogaeth, dehongli ystadegau mewn ffynonellau sylfaenol ac eilaidd, dadansoddi graffiau a llinellau amser a mynd i'r afael â chysyniadau fel ymwybyddiaeth gronolegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn eu galluogi i roi digwyddiadau mewn cyd-destun a mesur newid. Gall dysgwyr lunio casgliadau seiliedig ar dystiolaeth sy'n seiliedig ar ystadegau a data rhifiadol.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Rhifedd yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. | |
| | |
| Mae dysgu am geometreg yn ein helpu ni i ddeall siâp, gofod a safle, ac mae dysgu am fesur yn ein helpu i feintioli yn y byd go iawn | Caiff dysgwyr gyfleoedd i ddadansoddi mapiau i ddeall twf a datblygiad ymerodraethau neu gynrychioliad daearyddol o ryfeloedd. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi mapiau, strwythurau ac arteffactau.<br>• Yna, gall dysgwyr ddadansoddi prosesau rhannu tir a chynllunio trefol.<br>• Ceir cyfleoedd i ddadansoddi strategaethau ac amddiffynfeydd milwrol. |
| | |
| Mae dysgu bod ystadegau yn cynrychioli data a bod tebygolrwydd yn modelu siawns yn ein helpu ni i ddod i gasgliadau ac i wneud penderfyniadau gwybodus | Caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio neu ddadansoddi data a graffiau drwy ddadansoddi ffynonellau. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Gall dysgwyr ddadansoddi data i lunio casgliadau ar ystadegau fel twf poblogaeth, costau ac ehangu tir.<br>• Gellir dehongli deunydd eilaidd fel graffiau a siartiau.<br>• Ceir cyfleoedd i ddysgwyr greu eu cynrychioliadau rhifyddol eu hunain o'r data a gasglwyd. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Trawsgwricwlaidd – Cymhwysedd Digidol</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys Cymhwysedd Digidol mewn TGAU Hanes. Gall dysgwyr ddefnyddio technoleg ddigidol i gael gafael ar amrywiaeth eang o ffynonellau hanesyddol ac i ymchwilio i bwnc hanesyddol. Caiff dysgwyr y cyfle hefyd i feithrin eu sgiliau digidol wrth baratoi a chwblhau eu hasesiadau di-arholiad. Bydd y cyfleoedd hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm, ynghyd â galluogi mynediad pellach i wybodaeth hanesyddol wrth feithrin sgiliau meddwl creadigol ac ymwybyddiaeth foesegol presennol ac ar gyfer y dyfodol.<br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellir ymgorffori cymhwysedd digidol yn yr addysgu a dysgu ar gyfer TGAU Hanes.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Dinasyddiaeth</td><td>Bydd dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd priodoliadau, gan gynnwys defnyddio adnoddau mewn fformatau digidol fel e-lyfrau ac erthyglau ar-lein. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr fynd i'r afael â phriodoliadau wrth ddadansoddi eitemau ar gyfer eu hymchwiliad hanesyddol a meddwl yn feirniadol am awduron tystiolaeth ddigidol.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>Dylid sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o hawlfraint a llên-ladrad wrth edrych ar dystiolaeth hanesyddol ac wrth ddatblygu a chyflwyno eu dadleuon eu hunain mewn perthynas â phwnc.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Rhyngweithio a Chydweithio</td><td>Gall dysgwyr gydweithio (yn ddigidol) ar dasgau wrth baratoi ar gyfer yr arholiad. Gallai hyn gynnwys asesiadau cyfoedion, ymateb i adborth yr athro neu greu gwaith.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>Mewn grwpiau, gallai dysgwyr ymchwilio i bwnc er mwyn cyflwyno maes astudiaeth a'i gyflwyno.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Cynhyrchu</td><td>Caiff dysgwyr gyfleoedd i ymchwilio i amrywiaeth o ffynonellau yn ddigidol.</td></tr>
<tr><td>Enghraifft</td></tr>
<tr><td>• Defnyddio archifau cenedlaethol a rhyngwladol i ddod o hyd i ddeunyddiau sy'n cysylltu â'r maes astudiaeth.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

<table>
<tr><th colspan="2">Sgiliau Cyfannol</th></tr>
<tr><td rowspan="3">Creadigrwydd ac Arloesi</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys creadigrwydd ac arloesi mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr er mwyn iddynt ymddiddori mwy yn y gwersi a mwynhau dysgu drwy dasgau sy'n eu hysgogi. Caiff dealltwriaeth ddyfnach ei meithrin drwy annog dysgwyr i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Bydd dysgwyr yn dangos creadigrwydd wrth ddatblygu ymatebion, mynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol a gwerthuso ffynonellau a thystiolaeth yn feirniadol mewn asesiadau.<br>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i fod yn greadigol ac i arloesi wrth gyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau.</td></tr>
<tr><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td rowspan="3">Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau</td><td>Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys meddwl yn feirniadol a datrys problemau mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol, ac i gasglu tystiolaeth, myfyrio arni a'i gwerthuso'n feirniadol er mwyn llunio barn wybodus ar amrywiaeth o bynciau. Gellir cymhwyso'r sgìl hwn i senarios bywyd go iawn.</td></tr>
<tr><td>Enghreifftiau</td></tr>
<tr><td>• Caiff dysgwyr gyfleoedd i ofyn cwestiynau ystyrlon ar ddeunydd ffynhonnell a dehongliadau hanesyddol, ac i'w gwerthuso fel rhan o'u proses o ddatblygu dadleuon beirniadol perthnasol.<br>• Bydd dysgwyr yn datblygu eu gallu i weld materion o sawl safbwynt.<br>• Drwy astudio parhad a newid dros amser, bydd dysgwyr yn meithrin eu sgiliau datrys problemau y gallant eu cymhwyso yn eu bywydau yn y dyfodol.<br>• Bydd dysgwyr yn gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol o ran dibynadwyedd, rhagfarn a diben.<br>• Mae meddwl yn feirniadol a datrys problemau yn annog dysgu annibynnol ac yn hyrwyddo'r gallu i ddod i benderfyniadau rhesymol a gwybodus mewn agweddau eraill ar fywyd fel addysg bellach neu waith.</td></tr>
</table>

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | |
|---|---|---|
| Cynllunio a Threfnu | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys cynllunio a threfnu mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am fod y sgiliau cyfannol hyn yn galluogi dysgwyr i ymgysylltu â'r gorffennol, dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu â'u canfyddiadau, sydd wedyn yn galluogi dysgwyr i wella eu dealltwriaeth academaidd a'u paratoi i gymhwyso gwybodaeth hanesyddol mewn cyd-destunau modern.<br><br>Isod mae rhai enghreifftiau o sut y gellid ymgorffori Cynllunio a Threfnu yn yr addysgu a'r dysgu ar gyfer TGAU Hanes. |
| | **Enghraifft** |
| | • Caiff dysgwyr gyfleoedd i gynllunio ac yna gwblhau eu hymateb i gwestiwn ymholi. |
| | | |
| Effeithiolrwydd Personol | Mae llawer o gyfleoedd i gynnwys effeithiolrwydd personol mewn TGAU Hanes. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig i ddysgwyr am eu bod yn datblygu gwydnwch a'r gallu i weithio'n effeithiol. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau rheoli amser dysgwyr a'r gallu i flaenoriaethu tasgau, gan wella gallu dysgwyr i ddod yn unigolion hyblyg. |
| | **Enghreifftiau** |
| | • Bydd dysgu am bynciau a allai fod yn sensitif yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu deallusrwydd emosiynol a'u hymwybyddiaeth hanesyddol.<br>• Bydd cyfleoedd i gael asesiadau gan gyfoedion, hunanasesiadau ac asesiadau gan athrawon yn annog dysgwyr i ddatblygu strategaethau effeithiol i wella eu gwaith.<br>• Cydweithio ar dasg ymchwil neu gyflwyniad.<br>• Datblygu gwydnwch drwy adolygu ac ailfodelu atebion.<br>• Mae cyfleoedd i ddysgwyr fynegi eu barn am faterion hanesyddol perthnasol, deunyddiau ffynhonnell cyfoes a dehongliadau hanesyddol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

# Rhestr Termau ar gyfer Opsiwn 3.2 Y Croesgadau, tua 1095 - tua 1291

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Califfiaeth Abbasid | Yr ymerodraeth Fwslimaidd o amgylch dinas Baghdad. |
| Llinach Ayyubid. | Yr enw ar ymerodraeth Tyrciaid Seljwc yn yr Aifft a ddisodlodd linach Ffatimid. |
| Yr Ymerodraeth Fysantaidd | Rhan ddwyreiniol yr Ymerodraeth Rufeinig wreiddiol a oedd wedi goroesi dinistr y rhan orllewinol. |
| Y Byd Cristnogol | Y rhan o'r wlad yn yr Oesoedd Canol lle'r oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn Gristnogion. |
| Croesgad | Y rhyfel crefyddol rhwng Cristnogion a Mwslimiaid dros reolaeth o'r Tir Sanctaidd o'r ystyr *crucesignatus* Lladin sef 'tynnu arwydd y Groes', bendith Gristnogol. |
| Teyrnasoedd y croesgadwyr | Y pedair gwladwriaeth a grëwyd gan y prif groesgadwyr i reoli'r tiroedd yr oeddent wedi'u cipio yn y Dwyrain Agos. |
| Llinach Ffatimid | Ymerodraeth Fwslimaidd gogledd Affrica. |
| Sgism Mawr | Y rhaniad rhwng Eglwysi Cristnogaeth Ladinaidd a Groegaidd. |
| Eglwys Roegaidd | Yr Eglwys Gristnogol a arweiniwyd gan y Patriarch yn Constantinople. |
| Tir Sanctaidd | Tir ar ben dwyreiniol Môr y Canoldir a oedd yn ganolbwynt i sawl un o grefyddau mawr y byd - Islam, Cristnogaeth ac Iddewiaeth. |
| Materion Dadleuol yr Arwisgiad | Anghydfod rhwng y Pab a rheolwyr y gwledydd yng ngorllewin Ewrop ynghylch pwy oedd â'r grym i benodi esgobion. |
| Jihad | Rhyfel sanctaidd - yn ôl y Proffwyd Mohammad, ystyr jihad lleiaf oedd ymgiprys crefyddol â rhai o'ch cwmpas, ac ystyr jihad mwyaf oedd ymgiprys â chi eich hun. |
| Eglwys Ladinaidd | Yr Eglwys Gristnogol dan arweiniad y Pab yn Rhufain. |
| Swltaniaeth Mamluk | Enw'r ymerodraeth Fwslimaidd a ddisodlodd linach Ayyubid. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Gorchmynion milwrol | Grwpiau o farchogion a wnaed yn offeiriaid hefyd er mwyn amddiffyn Cristnogaeth yn y Tir Sanctaidd. |
| Outremer | Yr enw torfol ar deyrnasoedd y croesgadwyr (o'r Ffrangeg am ‘dros y môr’). |
| Pererindod | Mynd ar daith grefyddol, fel arfer i le sydd ag arwyddocâd crefyddol. |
| Ysbeilio | Dwyn o diriogaeth yr ymosodwyd arni. |
| Tyrciaid Seljwc | Mwslimiaid a symudodd i'r Dwyrain Agos o Ganol Asia. |
| Gwarchae | Pan fydd byddin yn amgylchynu tref neu gadarnle i orfodi'r trigolion i ildio. |
| Cytundeb | Cytundeb cyfreithiol rhwng dwy wlad. |
| Cadoediad | Cytundeb i roi’r gorau i ymladd. |
| Llinach Umayyad | Yr ymerodraeth Fwslimaidd a oedd yn rheoli yn y rhan fwyaf o Sbaen yn yr Oesoedd Canol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025